



Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

Uned Cefnogi Llywodraethwyr

Llythyr Newyddion

Nodyn gan y Cadeirydd

Heddiw, bydd fy merch hynaf a'i gŵr yn symud i'w cartref newydd. O ganlyniad, rydw i'n ysgrifennu hwn mewn ystafell sy'n llawn cynnwys amrywiol y fflat y buont yn ei rentu. Symudwyd y deunydd yma ddoe o Gaerdydd, a bydd yn cael ei drosglwyddo i'r tŷ newydd i lawr y ffordd yn nes ymlaen.

Ac rydym wedi cael cychwyn newydd yn ysgolion y Fro, wrth i hyfforddiant gorfodol gael ei ddarparu i holl Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu y tymor hwn. Mae John Sparks o'r Uned Cefnogi Llywodraethwyr, Jill Davies, Cadeirydd Ysgol Gynradd Llancarfan a minnau wedi bod yn darparu'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n tair sesiwn wedi bod yn rhai rhyngweithiol iawn - cael Cadeiryddion i drafod materion mewn grwpiau bach ac yna, mewn sesiwn iawn. Bu'r adborth yn dda iawn a hoffwn ddiolch i bawb am fod mor agored a mor barod i rannu eu profiadau. Wrth drefnu'r digwyddiadau, roeddem yn teimlo y byddai hwn yn well dull na gorfodi pobl i wyllo sawl cyflwyniad PowerPoint diflas.

Mae'r hyfforddiant Data ac Ymsefydlu Gorfodol i Lywodraethwyr newydd yn

mynd yn dda hefyd. Mae John Sparks wedi datblygu dewis ar-lein eddysgu arloesol ar gyfer y rhai nad oes modd iddynt fynychu'r sesiynau Ymsefydlu, er mwyn sicrhau bod modd bodloni'r gofynion gorfodol. Mae hwn yn beth gwyh i bobl brysur ac mae awdurdodau lleol eraill yn ystyried ei fabwysiadu.

Mae hyfforddiant da i Lywodraethwyr yn hanfodol os ydym yn mynd i sicrhau bod y myfyrwyr yn ein gofal yn cael yr addysg y mae angen iddynt ei chael er mwyn eu paratoi ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer dyfodol y Fro, dyfodol Cymru a'r byd ehangach y byddant yn byw ynddo, yn gweithio ynddo ac yn cyfrannu iddo.

A'm merch? Mae'r tŷ newydd yn ôl yn y Fro ar ôl ei blynedd yng Nghaerdydd, ac mae hi newydd ymgymryd â dyletswyddau fel Llywodraethwr mewn Ysgol Gynradd yn y Fro. Efallai y byddwch yn dod ar ei thraws yn ystod sesiynau hyfforddiant i Lywodraethwyr yn y dyfodol.

Martin Price

Cadeirydd VSGA ac Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn, Y Barri

Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Uned Cefnogi Llywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg,
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Tŷ Provincial, Heol Kendrick,
Y Barri CF62 8BF

Manylion cyswllt:

John Sparks
Pennaeth Cefnogi Llywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk
Janine Hoare
Cynorthwydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820
E-bost : JHoare@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA
Uned Cefnogi Llywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Tŷ Provincial
Heol Kendrick, Y Barri CF62 4BF

Rhifyn 31 Tymor Gwanwyn 2014

Pwyntiau arbennig o ddi-ddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiodd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Cyflwyniad i Lywodraethwyr - Mark Biernacki - Cynorthwydd Rheoli Carbon

Fy enw i yw Mark Biernacki a fi yw Cynorthwydd Rheoli Carbon Cyngor Bro Morgannwg, ac rydw i'n gweithio i'r Rheolwr Ynni, David Powell, yn y Swyddfa Ddinesig. Rydw i'n delio gyda chronfa ariannol sy'n defnyddio'r arbedion sy'n cael eu gwneud trwy osod mesurau arbed ynni er mwyn talu am y mesurau hynny. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith inswleiddio, rheoli gwresogi a gwneud addasiadau ac uwchraddio systemau, ac uwchraddio er mwyn arbed ynni gan gynnwys trefniadau rheoli a goleuadau LED. Mae ysgolion ar draws y Fro wedi bod yn gwneud defnydd mawr o'r gronfa hon ac mae arian ar gael er mwyn gwneud gwelliannau pellach.

Mae'r cyngor wedi bod yn defnyddio'r gronfa hon er 2009 er mwyn gwneud oddeutu 80 o welliannau mewn adeiladau, y bu dros 30 ohonynt mewn ysgolion, ac er mwyn sicrhau arbedion disgwylidig o £4 Miliwn yn ystod eu hoes. Mae'r gronfa ar gael ar gyfer awdurdodau lleol yn unig, ac mae'r arian gan y cyngor a neilltuwyd ar gyfer arbed ynni wedi cael arian cyfatebol gan lywodraeth Cymru. Cymhelliad oedd hwn er mwyn sicrhau bod y cyngor yn llwyddo i gyflawni'r targedau lleihau carbon a osodwyd ar ei gyfer; ac yn ei hanfod, mae'n dyblu'r arian sydd ar gael ar gyfer gwaith o'r fath.

Telir am waith y prosiect mewn rhandaliadau o'r arbedion ynni a wneir gan y prosiect, felly bydd yr ysgol yn gwario llai o arian ar ynni bob blwyddyn hyd yn oed ar ôl talu biliau ynni a gwneud ad-daliadau. Ar ôl yr ad-daliad olaf, bydd yr ysgol yn cadw'r holl arbedion ac ni fydd cyfran y cyngor tuag at yr anghenion ynni yng nghyllideb yr ysgol yn gostwng. I bob pwrpas, byddwch yn gwario llai o arian o'r eiliad pan fydd y mesurau yn cael eu gweithredu.

Enw'r gronfa yw Salix ac mae dwy astudiaeth achos leol ynghylch ysgolion sydd wedi cymryd rhan ynghlwm, wrth i'r cyngor osod mesurau arbed ynni a gwneud gwelliannau ac arbedion sylweddol.

Fel enghraifft:

- **Gwnaethpwyd gwaith inswleiddio yn llofft Ysgol Gyfun y Barri ac o ganlyniad, gwelwyd ei biliau gwresogi yn gostwng mewn ffordd ddramatig.**
- **Defnyddir rhywfaint o'r swm blynyddol hwn a arbedir er mwyn talu yn ôl am y gwaith a wnaethpwyd, heb dalu unrhyw log: mae'r gweddill, i bob pwrpas, yn elw ar gyfer yr ysgol.**
- **Mae'r arbedion a wneir yn golygu eu bod yn talu am y gwaith cyn pen dwy flynedd.**
- **Ar ôl yr ad-daliad olaf, bydd yr ysgol yn cadw'r holl arbedion blynyddol, y maent yn werth £8860.**
- **Ni wneir ad-daliad yn ystod y flwyddyn gyntaf. Byddwch yn gweld yr arbedion o'r diwrnod cyntaf.**

Anfonwch neges e-bost ataf neu ffoniwch fi i weld pa welliannau ynni y gallai fod modd i'ch ysgol chi fanteisio arnynt. Mae modd i chi arbed arian, arbed ynni a bod yn ysgol fwy gwyrdd ar yr un pryd.

Diolch,

Mark Biernacki
Cynorthwydd Rheoli Carbon
Gwasanaethau Ariannol
Cyngor Bro Morgannwg
ffôn: 01446 709101
e-bost: mbiernacki@valeofglamorgan.gov.uk

Ewch i'n gwefan yn www.bromorgannwg.gov.uk

Cewch ddod o hyd i ni ar Facebook
Dilynwch ni ar Twitter

Adeiladwyd Ysgol Gyfun Y Barri ym mro Morgannwg yn y 1960au ac mae ganddi 1,300 o fyfyrwyr. Maent yn defnyddio eu benthyciad di-log 100% Salix o £15,170 er mwyn lleihau eu costau ynni i bob disgybl o fwy na £6 y flwyddyn trwy wella eu heffeithlonrwydd gwresogi. Dyma sut y gwnaethon nhw hyn.



Trosolwg y prosiect

Defnyddiodd Ysgol Gyfun Y Barri fenthyciad Salix i insiwleiddio adeilad yr ysgol. Roedden nhw am greu amgylchedd dysgu mwy cysurus ac arbed ynni a chostau. Penderfynodd yr ysgol i ddefnyddio arian Salix i sicrhau y gallen nhw wella insiwleiddiad trwy gydol ardaloedd yr ysgol. Bydd yr insiwleiddiad newydd yn helpu i gyflawni arbedion arfaethedig o bron i 20% ar eu costau gwresogi. Caiff y prosiect ei ad-dalu o'r arbedion o fewn llai na 2 flynedd.



Bydd Salix yn eich helpu i:

Ddysgu sut y gallwch chi elwa o wybodaeth Salix ynghylch effeithlonrwydd ynni

Defnyddiwch ein hystod o astudiaethau achos i'ch helpu i ysgrifennu achos busnes cryf

Dysgwch ragor am sut i leihau costau ynni blynyddol yn sylweddol

Dechreuwch ddefnyddio ein proses seml i ymgeisio am fenthyciad

Astudiaeth achos Ysgol Gyfun Y Barri

Roedd Ysgol Gyfun Y Barri'n edrych am ffordd effeithiol i yrru defnydd o ynni i lawr. Cyflawnodd y goleuo ynni-effeithlon hyn trwy leihau'r gost i bob disgybl o fwy na £6 y flwyddyn. Mae sefydlu Rhaglen Benthyciadau Salix, a ariannir gan Lywodraeth Cymru, wedi sicrhau bod y newidiadau hyn yn bosibl. Mae Rhaglen Benthyciadau Salix ar gael i'r holl ysgolion o fewn Cymru ac nid oes terfyn ymgeisio uchaf y gall pob ysgol ymgeisio amdano.

Chwe dangosydd Salix

Cyfanswm y benthyciad
£15,170

Arbedion blynyddol £
£8,860

Arbedion blynyddol tunnell o CO₂
38

Arbedion oes £
£265,798

Arbedion oes tunnell o CO₂
1,143

Cyfnod ad-dalu'r prosiect
1.7 blynedd

Gweithio gyda Salix

Pam Salix?

Cynigiodd benthyciad cyllid cyfalaf 100% di-log Salix o £15,170, a chymorth cleientiaid, ateb effeithiol o ran cost ac adnoddau. Dangosodd offeryn cydymffurfio prosiect Salix arbedion ariannol ar ôl gosod insiwleiddiad gwresogi newydd o fewn yr ysgol gan ganiatáu i Ysgol Gyfun Y Barri gyflawni cyfnod ad-dalu o lai na 2 flynedd. Ar ôl i'r prosiect gael ei ad-dalu, bydd Ysgol Gyfun Y Barri'n mynd ymlaen i elwa o fwy nag £8,800 mewn arbedion o ran cost ynni blynyddol.

Ateb Salix

Caniatâodd ateb Salix i Ysgol Gyfun Y Barri wella eu heffeithlonrwydd gwresogi mewn ardaloedd o safle'r ysgol. Maen nhw'n gobeithio y bydd y deunydd newydd i insiwleiddio adeilad yn darparu amgylchedd dysgu mwy cysurus a fydd yn annog myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r myfyrwyr yn ailgylchu hen bapur yn weithredol, yn monitro gwastraff bwyd yn y cantîn ac yn sicrhau bod goleuadau'n cael eu diffoddyn yr ystafelloedd dosbarth.

Salix a'r ysgol

Gweithiodd Rhaglen Cynllun Benthyciadau Salix yn dda iawn i Ysgol Gyfun Y Barri, gan ganiatáu iddyn nhw osod deunydd newydd i insiwleiddio'r adeilad. Erbyn hyn mae'r ysgol yn fwy ynni-ymwybodol ac mae grŵp amgylcheddol eu cyngor i fyfyrwyr yn y broses o ddatblygu eco-bwyllgor. Mae gan yr eco-bwyllgor dair prif nod, sef i gynyddu'r gyfleuster godi sbwriel o fewn yr ysgol, i sefydlu eu tîm dinasyddiaeth byd-eang ac i gynyddu effeithlonrwydd ynni trwy gydol yr ysgol. Mae'r pwyllgor wedi cynllunio sticeri i'w dosbarthu trwy gydol yr ysgol, er mwyn sicrhau bod goleuadau'n cael eu diffodd.

I gyrchu rhagor o wybodaeth ewch at:
www.salixfinance.co.uk/loans/welsh-loans

Mae pob astudiaeth achos Salix ar gael fel PDF y gellir ei lawrlwytho ar www.salixfinance.co.uk/knowledge-share/case-studies



“Galluogodd prosiect Salix ni i wneud cyfraniad at amgylchedd gwyrddach a chyfle i ail-fuddsoddi'r arbedion tuag at ddysgu”

Gerard McNamara, prifathro, Ysgol Gyfun Y Barri

“Mae gennym adnoddau cyfyngedig ar gael ar gyfer cynhyrchu ynni. Mae ein hysgol bartner yn Rwanda wedi'n helpu i weld faint rydyn ni'n cymryd ynni'n ganiataol. Bydd y prosiect hwn yn gwella ein heffeithlonrwydd ynni a'n helpu i ddeall pam mae e mor bwysig.”

Lauren, Blwyddyn 13, Ysgol Gyfun Y Barri

Ariennir gan



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SALIX

DATRYN CYLLID ARBED YNNI YN Y SECTOR CYHOEDDUS

WWW.SALIXFINANCE.CO.UK

Adeiladwyd Ysgol Gynradd Saint-y-brid ym mro Morgannwg yn 1969 ac mae ganddi 184 o fyfyrwyr. Maent yn defnyddio eu benthyciad di-log 100% Salix o £10,125 er mwyn lleihau eu costau ynni i bob disgybl o fwy na £12 y flwyddyn trwy wella eu heffeithlonrwydd gwresogi. Dyma sut y gwnaethon nhw hyn.



Trosolwg y prosiect

Defnyddiodd Ysgol Gynradd yr Eglwys Saint-y-brid fenthyciad Salix er mwyn uwchraddio eu goleuadau. Roedd yr ysgol am greu amgylchedd dysgu mwy golau ac arbed ynni a chostau. Penderfynodd yr ysgol i ddefnyddio arian Salix i sicrhau y gallen nhw wella goleuadau trwy gydol yr ysgol gyfan. Amcangyfrifir bod y dechnoleg newydd hon yn defnyddio 74%yn llai o ynni i oleuo ystafelloedd dosbarth a choridorau. Caiff y prosiect ei ad-dalu o'r arbedion o fewn llai na 4 blynedd.



Bydd Salix yn eich helpu i:

Ddysgu sut y gallwch chi elwa o wybodaeth Salix ynghylch effeithlonrwydd ynni

Defnyddiwch ein hystod o astudiaethau achos i'ch helpu i ysgrifennu achos busnes cryf

Dysgwch ragor am sut i leihau costau ynni blynyddol yn sylweddol

Dechreuwch ddefnyddio ein proses seml i ymgeisio am fenthyciad

Achos Busnes Ysgol Gynradd yr Eglwys Sant-y-brid

Roedd Ysgol Gynradd Saint-y-brid yn edrych am ffordd effeithiol i yrru defnydd o ynni i lawr. Cyflawnodd y goleuo LED ynni-effeithlon hyn trwy leihau'r gost i bob disgybl o fwy nag £12 y flwyddyn. Mae Rhaglen Benthyciadau Salix, a ariannir gan Lywodraeth Cymru, wedi sicrhau bod y newidiadau hyn yn bosibl. Mae Rhaglen Benthyciadau Salix ar gael i'r holl ysgolion o fewn Cymru ac nid oes terfyn ymgeisio uchaf y gall pob ysgol ymgeisio amdano.

Chwe dangosydd Salix

Cyfanswm y benthyciad

£10,125

Arbedion blynyddol £

£2,218

Arbedion blynyddol tunnell o CO₂

11

Arbedion oes £

£28,840

Arbedion oes tunnell o CO₂

150

Cyfnod ad-dalu'r prosiect

4.5 years

Funded by

SALIX



Gweithio gyda Salix

Pam Salix?

Cynigiodd benthyciad cyllid cyfalaf 100% di-log Salix o £10,125, a chymorth cleientiaid, ateb effeithiol o ran cost ac adnoddau i Ysgol Gynradd yr Eglwys Sant-y-brid. Dangosodd offeryn cydymffurfio prosiect Salix arbedion ariannol ar ôl gosod goleuadau LED newydd o fewn yr ysgol gan ganiatáu i Ysgol Gynradd Sant-y-brid gyflawni cyfnod ad-dalu prosiect o lai na 5 mlynedd. Ar ôl i'r prosiect gael ei ad-dalu, bydd Ysgol Gynradd yr Eglwys Sant-y-brid yn mynd ymlaen i elwa o fwy nag £2,218 mewn arbedion o ran cost ynni blyneddol.

Ateb Salix

Maen nhw'n gobeithio bydd y goleuadau newydd yn darparu amgylchedd dysgu mwy cyffrous a fydd yn ysgogi myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth ac yn creu amgylchedd gwaith mwy cyfforddus ar gyfer athrawon.

Salix a'r ysgol

Gweithiodd Rhaglen Benthyciadau Salix yn dda iawn i Ysgol Gynradd yr Eglwys Sant-y-brid, gan ganiatáu iddyn nhw osod goleuadau newydd. Mae'r ysgol yn eco-ysgol baner blatinwm ac maen nhw'n ymwybodol iawn ynghylch ynni; mae eco-glwb gweithgar sy'n cwrdd yn wythnosol er mwyn trafod gweithgareddau i helpu'r ysgol i ddatblygu ffyrdd newydd i fod yn ynni-effeithlon a gwyrdd.

I gyrchu rhagor o wybodaeth ewch at:
www.salixfinance.co.uk/loans/welsh-loans

Mae pob astudiaeth achos Salix ar gael fel PDF y gellir ei lawrlwytho ar www.salixfinance.co.uk/knowledge-share/case-studies



“Roedd newid at oleuadau LED yn ffordd gywir inni symud ymlaen. Cyflawnwyd y gwaith i newid y goleuadau heb unrhyw ymyrraeth neu anghyfleuster i'r ysgol - fe'i gwnaed i ngyd dros benwythnos. Mae'r goleuadau'n wych, effeithlon, yn arbed ynni ac yn gost-effeithiol hefyd. Byddwn i'n argymhell yn fawr bod ysgolion eraill yn ystyried symud drosodd i oleuadau LED.”

Clare Matthews, Prifathrawes, Ysgol Gynradd yr Eglwys Sant-y-brid

“Mae'n wych pan yw'r goleuadau'n diffodd pan nad oes neb yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r goleuadau newydd yn ffantastig”

Amelie Clode, Blwyddyn 6, Ysgol Gynradd yr Eglwys Sant-y-brid

Ariennir gan

SALIX



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ethol Cabinet Ieuentid

Y tro cyntaf y gwnaethom glywed am y gwaith a wneir mewn partneriaeth rhwng Gwasanaeth Ieuentid Bro Morgannwg a Fforwm Ieuentid y Fro (VYF) ac am eu cynlluniau i recriwtio pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ar draws y Fro i VYF oedd yng nghylchlythyr Tymor yr Hydref. Mae VYF yn elusen gofrestrdedig sy'n dwyn ynghyd pobl ifanc o'r ysgolion a'r sefydliadau ieuentid y maent yn eu cynrychioli, ac mae'n helpu pobl ifanc i fynegi eu barn am y materion sy'n effeithio arny'n nhw a'u cymunedau.

Ers hynny, mae dros 40 o bobl ifanc wedi cael eu recriwtio i'r fforwm, gan gynrychioli amrywiaeth o ysgolion uwchradd, clybiau ieuentid a sefydliadau ieuentid statudol ac anstatudol ar draws y Fro. Mae holl aelodau VYF wedi cael cyfres o sesiynau hyfforddiant a fydd yn eu helpu i gyflawni eu rôl cynrychioliadol. Roedd yr hyfforddiant yn amrywio o hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd a ddarparwyd gan Bobl yn Gyntaf y Fro a Phrosiect Ieuentid Penarth, hyfforddiant Dyfodol Pawb a ddarparwyd gan Vibe Experience er mwyn mynd i'r afael â stereoteipio a gwahaniaethu ar sail oedran, a hyfforddiant ynghylch Cynrychiolaeth a ddarparwyd gan y Ddraig Ffyni, cynulliad plant a phobl ifanc Cymru. Yn ogystal, gwnaeth aelodau VYF gwblhau rhaglen ymsefydlu Fforwm Ieuentid y Fro.

Yn ystod y broses hon, mae aelodau VYF wedi bod yn gweithio tuag at yr etholiad cyntaf erioed a gynhelir ar gyfer Cabinet Ieuentid Bro Morgannwg. Wrth baratoi ar gyfer hwn, cyfarfu aelodau VYF gyda Chabinet Bro Morgannwg, gan gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb gydag aelodau VYF a buont yn rhannu eu profiad a'u harbenigedd wrth sefyll am etholiadau a bod yn aelod Cabinet. Cafodd holl aelodau VYF help wrth baratoi eu manifestos a chawsant oll y cyfle i sefyll fel ymgeiswyr ar gyfer y Cabinet Ieuentid, a gwnaeth dau ar bymtheg o bobl ifanc hynny mewn digwyddiad a gynhaliwyd ar 24/03/14.

Cyhoeddwyd y Cabinet Ieuentid mewn seremoni sefydlu swyddogol a gynhaliwyd ar 31/03/14 gan Arweinydd y Cyngor, Cyng Neil Moore. Yr ymgeiswyr llwyddiannus y pleidleisiwyd drostynt gan eu cymheiriaid yn VYF yw Tom Chandler, Emily Peters, Jessica Peters, Ellis Rosser, Candy Srinivas, Emme Srinivas a Niclas Want. Yn ystod y noson honno, cyflwynwyd tystysgrifau i aelodau VYF hefyd am eu hymrwymiad a'u gwaith caled gan Gyng Chris Elmore.

Bydd Cabinet Ieuentid Bro Morgannwg yn llais ar gyfer pobl ifanc ar draws y Fro a thrwy weithio mewn partneriaeth gyda VYF, bydd yn cynrychioli safbwyntiau pobl ifanc i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau o fewn Cyngor Bro Morgannwg.

Bethan Watkins

Hyfforddai Cyfranogiad Ieuentid



Ymddiriedolaeth Teulu Fischer

Mae FFT wedi datblygu offeryn newydd ar gyfer llywodraethwyr. Datblygwyd Dangosfwrdd Llywodraethwyr FFT mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Genedlaethol y Llywodraethwyr ac Ymddiriedolaeth Wellcome.

Mae'r Dangosfwrdd hwn yn darparu ystod o wybodaeth er mwyn helpu llywodraethwyr ysgol i gynorthwyo ac i herio tîm arwain yr ysgol. Fe'i cynlluniwyd i arddangos gwybodaeth am ganlyniadau a chynnydd disgyblion, eu perfformiad mewn pwnc, cynnydd grwpiau o ddisgyblion, cyd-destun yr ysgol, presenoldeb ac i amlygu rhai o gryfderau a gwendidau'r ysgol mewn ffordd eglur.

Mae modd i bob ysgol sy'n tanysgrifio i FFT trwy gyfrwng CLG TGCh a Data Bro Morgannwg lawrlwytho Dangosfwrdd Llywodraethwyr FFT o FFTLive (www.fftlive.org) (www.fftlive.org) a'i rannu mewn ffordd hawdd gyda'r llywodraethwyr.

Mae modiwlau eDdysgu am y Dangosfwrdd Llywodraethwyr ar gael er mwyn eich helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich Dangosfwrdd Llywodraethwyr. Cofrestrwch yma

(elearning.fft.org.uk) er mwyn dysgu sut i ddehongli eich data ac er mwyn cynorthwyo i godi safonau yn eich ysgol.

Chris Habberley
Rheolwr TGCh a Data

Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2012-14

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig a dau Gynrychiolydd y maent yn Rhiant-Llywodraethwyr (un o'r sector Cynradd ac un o'r sector Uwchradd).

Nifer	Teitl	Llythrennau cyntaf	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfô
2	Cyng Mr	C	Elmore	Ysgol Gyfun Y Barri ac Ysgol Gynradd Holton
3	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr ac Ysgol Gynradd Romilly
4	Mrs	S	Hodges	Ysgol Gwaun y Nant ac Ysgol Sant Baruc
5	Mr	P	Lewis	Ysgol Gyfun Y Bont-faen
6	Mrs	A	Males	Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gyfun St Cyres
7	Mr	M	Mason	Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr ac Ysgol Dewi Sant
8	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn
9	Mrs	C	Roach	Ysgol Gynradd Llangan
10	Mr	P	Sampson	Ysgol Gynradd Tregatwg
11	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llananwyr ac Ysgol Gwaun y Nant
12	Mr	S	Williams	Ysgol Gynradd Y Rhws
13	Mrs	P	Hardy	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru All Saints
14	Mrs	S	Williams	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru All Saints
15	Mrs	K	Kemp	Ysgol Gynradd Llancarfan
CRh-L - Cynradd	Mr	L	Kellaway	Ysgol Gyfun Bro Morgannwg/Ysgol Nant Talwg
CRh-L - Uwchradd	Dr	C	Brown	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr

Dylai unrhyw lywodraethwyr y mae ganddynt ddiddordeb mewn bod yn aelod o Bwyllgor Rheoli VSGA gysylltu â John Sparks trwy anfon e-bost at JSparks@valeofglamorgan.gov.uk